Cronfa Gymunedol
Community Fund

Cymru

# Taclo Digartrefedd - Gwledig

Canllaw

# Beth sydd y tu fewn?


| | |
|---|---|
| Ynghylch Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol | 3 |
| Cefndir | 4 |
| Pwy all ymgeisio? | 6 |
| Nodau | 8 |
| Blaenoriaethau | 9 |
| Gwerthuso a Dysgu | 13 |
| Y broses ymgeisio | 14 |
| Maint a hyd y grant | 16 |
| Amserlen Taclo Digartrefedd | 17 |
| Sut i gychwyn arni | 19 |
| Cysylltwch â ni | 20 |


# Dyddiad cau i geisiadau

Y dyddiad cau ar gyfer Ffurflenni Mynegi Diddordeb yw 31 Mai 2022. I fynegi diddordeb, bydd angen i chi ymgeisio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill. Os oes diddordeb gennych mewn ymgeisio, cysylltwch â ni mor fuan â phosibl i drafod eich syniad – hyd yn oed os nad oes gan eich partneriaeth gynllun manwl. Gallwn hefyd eich helpu i ymuno â sefydliadau eraill sy'n meddwl am ymgeisio.

Os yw eich ffurflen Mynegi Diddordeb yn cael ei dderbyn, y dyddiad cau i anfon cais llawn yw 24 Tachwedd 2022. Cyfeiriwch at y broses ymgeisio a'r amserlenni rhaglen ar dudalen 14 a 17 i weld pa mor hir y mae'r broses ymgeisio yn debygol o gymryd.

**Dogfen ryngweithiol yw hon**

Llywiwch drwy'r gwahanol adrannau gan ddefnyddio'r dolenni yn y tabl cynnwys a'r botymau ar waelod pob tudalen.

# Ynghylch Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol

**Rydym yn cefnogi pobl a chymunedau i ffynnu.**

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yw cyllidwr gweithgarwch cymunedol mwyaf y DU. Credwn fod y tri dull canlynol yn hanfodol i helpu pobl a chymunedau yng Nghymru i ffynnu. Rydym ni am i'r holl weithgarwch yr ydym ni'n ei ariannu ymgorffori'r rhain.

**Arweinir gan bobl** – rydym ni'n chwilio am gyfranogiad ystyrlon gan y bobl rydych chi'n gweithio â nhw yn natblygiad, dyluniad a darpariaeth eich gweithgarwch.

**Seiliedig ar gryfderau** – rydym eisiau annog chi i fanteisio i'r eithaf ar sgiliau a phrofiadau pobl a chryfderau o fewn cymunedau, ac adeiladu arnynt.

**Cysylltiedig** – rydym eisiau gwybod bod gennych ddealltwriaeth dda o'r hyn y mae eraill yn ei wneud yn lleol, bod yr hyn yr ydych yn ei wneud yn cydweddu â hyn ac yn ychwanegu ato, a bod gennych berthnasoedd gwaith gyda grwpiau perthnasol eraill.

## Hygyrchedd

Cysylltwch â ni i drafod unrhyw anghenion cyfathrebu sydd gennych. Cysylltwch â ni trwy anfon e-bost at digartrefedd@cronfagymunedolylg.org.uk, trwy ffonio 0300 123 0735 neu neges destun ar 18001 plws 0300 123 0735.

## Ein hegwyddorion cydraddoldeb

Mae ein hegwyddorion cydraddoldeb yn cynnwys: hyrwyddo hygyrchedd, gwerthfawrogi amrywiaeth ddiwylliannol, hyrwyddo cyfranogiad, hyrwyddo cyfle cyfartal, hyrwyddo cymunedau cynhwysol a lleihau anfantais ac eithrio. Ewch i'n gwefan i gael rhagor o wybodaeth: cronfagymunedolylg.org.uk/cydraddoldeb

**Mae'r canllaw hwn hefyd ar gael yn Saesneg.**

## Mae'r amgylchedd yn bwysig i ni

Mae'r amgylchedd yn bwysig i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ac rydym bob amser yn ceisio rheoli ein heffaith amgylcheddol. Rydym yn annog ac yn cefnogi prosiectau a chymunedau i wneud yr un peth. Gallwch ddysgu rhagor am sut y gallwch wneud eich prosiect neu ddigwyddiad yn fwy amgylcheddol cynaliadwy ac efallai arbed arian ar yr un pryd trwy ymweld â tnlcommunityfund.org.uk/funding/funding-guidance/reducing-your-environmental-footprint

# Cefndir

Digartrefedd yw un o'r materion cymdeithasol mwyaf dybryd y mae Cymru yn eu hwynebu. Mae cysgu allan ar gynnydd ac mae gweld pebyll a gwersylloedd dros dro bellach yn olygfa rhy gyffredin ledled Cymru. Yn yr un modd, mae nifer y bobl sy'n byw mewn llety dros dro wedi cynyddu, ond mae maint y broblem digartrefedd gwledig yn llai gweladwy.

Gan weithio'n agos gyda'r sefydliadau sy'n cynnig cefnogaeth, a gyda'r rhai sydd wedi profi digartrefedd yn uniongyrchol, rydym wedi datblygu'r rhaglen ariannu hon mewn ymateb i'r her y mae digartrefedd gwledig yn ei gyflwyno. Yn ystod rownd gyntaf y rhaglen ariannu Taclo Digartrefedd, gwnaethom ddyfarnu £8.5 miliwn i dri phrosiect partneriaeth mewn awdurdodau lleol trefol yng Nghymru. Yn yr ail rownd, mae hyd at £3 miliwn o arian a godwyd gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol ar gael i helpu taclo digartrefedd mewn ardaloedd gwledig.

## Beth yw Digartrefedd?

Rydym wedi diffinio digartrefedd fel 'peidio â chael cartref'. Mae rhywun sy'n ddigartref yn rhywun a allai fod yn:

- cysgu allan
- aros gyda ffrindiau neu deulu
- aros mewn hostel, lloches nos neu Wely a Brecwast.
- sgwatio (oherwydd nad oes gan rywun hawl cyfreithiol i aros)
- dan risg o drais neu gam-drin yn eu cartref
- byw mewn amgylchiadau gwael sy'n effeithio ar eu hiechyd
- byw ar wahân o deulu gan nad oes lle i fyw gyda'i gilydd.

Mae achosion digartrefedd yn amrywiol ac yn unigryw i bob unigolyn, ond gallant gynnwys:

- nid yw rhieni bellach yn barod i ddarparu llety
- bod yn destun patrwm o ddigwyddiadau o ymddygiad rheoli, gorfodaeth, bygythiol, diraddiol a threisgar, gan gynnwys trais rhywiol gan bartner, aelod o'r teulu neu ofalwr yn eu cartref presennol (camdrin domestig)
- chwalfa perthynas lle nad oes gan un ohonynt lety arall
- tlodi
- anghydraddoldeb
- cyflenwad tai a fforddiadwyedd
- diweithdra.

Bydd Taclo Digartrefedd - Gwledig yn dyfarnu grantiau i brosiectau strategol sy'n gweithredu ar draws un neu'n fwy o ardaloedd awdurdod lleol (fe'u rhestrir ar dudalen 6). Bydd ceisiadau llwyddiannus yn ceisio ail-ddylunio gwasanaethau i wneud digartrefedd yn brin, yn fyr dymor ac yn anghylchol. Byddant yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn cael eu darparu gan bartneriaethau aml-asiantaeth.

Bydd y prosiectau a ariannwn yn cydbwyso dulliau ataliol ac ymatebol o fewn amgylchedd sy'n seiliedig ar drawma, yn darparu cefnogaeth i denantiaid (yn enwedig yn y sector rhentu preifat), ac yn mynd i'r afael â'r stigma a'r rhagfarn sy'n wynebu pobl ddigartref. Bydd pob prosiect yn cael ei werthuso'n gadarn fel bod yr hyn maen nhw'n ei ddysgu yn llywio polisi digartrefedd yn y dyfodol.

## What do we mean by rural?

Bydd y prosiectau yr ydym ni'n eu hariannu gyda'r rhaglen hon yn buddio ardaloedd gwledig ac nid pobl mewn trefi'n unig. Er hynny, rydym yn cydnabod bod trefi mewn ardaloedd gwledig yn aml yn ganolbwyntiau ar gyfer pobl ddigartref o ardaloedd gwledig. Er enghraifft, byddem ni'n ystyried cais yn seiliedig mewn tref ganolog ond yn gweithio â chymunedau gwledig.

# Pwy all ymgeisio?

**Byddwn ni ond yn derbyn un ffurflen Mynegi Diddordeb ar gyfer pob ardal awdurdod lleol**, gan gynnwys y rhai hynny sy'n dymuno gweithio ar draws mwy nag un ardal awdurdod lleol. Mae hyn oherwydd rydym am i sefydliadau lleol weithio gyda'i gilydd i ddatblygu datrysiadau yn hytrach na chystadlu yn erbyn ei gilydd am gyllid. Dyma'r ardaloedd nad oeddent yn llwyddiannus yn rownd gyntaf y rhaglen Taclo Digartrefedd

- Sir Gaerfyrddin
- Ceredigion
- Conwy
- Sir Ddinbych
- Gwynedd
- Ynys Môn
- Sir Benfro
- Powys

Mae ein hymchwil yn dangos bod angen i sefydliadau weithio gyda'i gilydd i gydlynu eu dull, cau bylchau a sicrhau eu bod yn manteisio ar gyfleoedd i atal a thaclo digartrefedd. Byddwn ni ond yn derbyn ceisiadau gan bartneriaethau amlsector, aml-sefydliadol. Er nad yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, rydym yn disgwyl i'r mathau canlynol o sefydliadau gymryd rhan fel partneriaid:

- Sefydliadau trydydd sector lleol sefydledig gyda phrofiad o ddarparu gwasanaethau digartrefedd
- Gwasanaethau iechyd
- Awdurdodau lleol o'r ardaloedd uchod
- Y sector rhentu preifat
- Cymdeithasau tai
- Sefydliadau trydydd sector gydag arbenigedd perthnasol
- Y Gwasanaeth Prawf
- Yr Heddlu
- Sefydliadau Diogel
- Sefydliadau lleiafrifoedd ethnig
- Sefydliadau LHDT+
- Mentrau cymdeithasol gydag arbenigedd perthnasol
- Gwasanaethau iechyd meddwl

- Sefydliadau crefyddol / lleoedd addoli
- Sefydliadau Academaidd neu Ymchwil

Dylai Partneriaethau a cheisiadau gynnwys un neu'n fwy o ardaloedd awdurdod lleol a rhaid iddynt gael eu harwain gan sefydliad trydydd sector sydd mewn sefyllfa dda. **Mae angen i'r partneriaethau gynnwys yr awdurdod/awdurdodau lleol sy'n cwmpasu'r ardal**.

# Nodau

Hoffem ariannu prosiectau sy'n bodloni'r holl amcanion canlynol. Dylai eich cais egluro sut fydd eich partneriaeth yn:

Dod â phobl sydd wedi'u heffeithio gan ddigartrefedd ynghyd â sefydliadau'r trydydd sector a'r sector cyhoeddus, a'r sector rhentu preifat, i gyd-ddylunio prosiectau sy'n ailgynllunio gwasanaethau i atal a thaclo digartrefedd, gan ei wneud yn brin, yn fyr dymor ac yn anghylchol.

Darparu cefnogaeth barhaus sy'n canolbwyntio ar y person, yn ychwanegol i'r ddarpariaeth gyfredol. Dylai hyn gydnabod bod digartrefedd yn aml ond yn un o sawl her a wynebir gan y rhai hynny sy'n ei brofi. Dylai ymdrin â'r heriau eraill yn eu bywydau a'u helpu i'w goresgyn.

Datblygu a darparu gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar atal digartrefedd i leihau'r nifer o bobl sy'n ddigartref yn y dyfodol.

Lleihau'r gwahaniaethu a'r rhagfarn a gyfeirir tuag at bobl ddigartref trwy annog empathi a dealltwriaeth trwy ddull sy'n seiliedig ar drawma o fewn gwasanaethau'r sector cyhoeddus, trydydd sector a'r gymuned ehangach.

Datblygu sylfaen dystiolaeth gadarn ar ddulliau effeithiol tuag at wneud digartrefedd yn brin, yn fyr ac yn anghylchol a all lywio'r broses o gyflawni prosiectau yn ogystal â llunwyr polisi a chomisiynwyr gwasanaeth eraill.

# Blaenoriaethau

## Pwy fydd yn elwa o'r arian?

Rydym yn awgrymu y dylai unrhyw n sy'n ddigartref, neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, fod yn gymwys i elwa o'r prosiectau a gefnogir gan y rhaglen hon. Dylent dderbyn cefnogaeth am gyhyd ag y bo angen hynny arnynt, boed ydynt ar y rhestr angen blaenoriaeth ai peidio.

Rydym yn cydnabod y bydd gan rai pobl sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref un neu ragor o nodweddion a fydd yn eu rhoi mewn mwy o berygl. Rydym yn disgwyl i'r prosiectau yr ydym yn eu hariannu i ystyried sut y byddant yn mynd i'r afael ag unrhyw anghenion cefnogaeth ychwanegol a allai fod ganddynt. Mae'r tabl hwn, nad yw'n gynhwysfawr, yn amlygu rhai o'r nodweddion a all arwain at angen unigolion am gefnogaeth ychwanegol.

| | |
|---|---|
| Cyn-filwyr a chyn-aelodau o'r lluoedd arfog | Pobl sy'n gadael gofal |
| Pobl sy'n gadael Sefydliadau Diogel | Teuluoedd |
| Pobl o leiafrif ethnig | Pobl sy'n hunan-nodi fel LHDT+ |
| Pobl sy'n gaeth ac yn camddefnyddio sylweddau | Heriau iechyd meddwl |
| Ffoaduriaid | Ceiswyr lloches |
| Pobl sy'n gadael yr ysbyty | Pobl wedi'u heffeithio gan gam-drin domestig |
| Pobl wedi'u heffeithio gan drais rhywiol | Pobl wedi'u heffeithio gan gam-fanteisio rhywiol |
| Gofalwyr ifanc | Pobl nad ydynt wedi'u hadnabod fel angen blaenoriaethol |
| Pobl sy'n ffoi rhag priodasau gorfodol | Pobl ifanc |
| Menywod sy'n feichiog | Dioddefwyr troseddau ar sail anrhydedd |
| Pobl hŷn | Pobl sy'n colli eu cartref trwy ddamwain neu drychineb naturiol |

| | |
|---|---|
| Pobl anabl | Pobl wedi'u heffeithio gan amgylchiadau economaidd anodd |
| Pobl sengl | Pobl ag anableddau dysgu |
| Pobl â ffordd o fyw di-drefn | Pobl sy'n cael eu gwneud yn ddigartref ar sail gylchol |

## Cyd-ddylunio gyda'r rhai fydd yn elwa

Rydym eisiau i ymgeiswyr weithio gyda phobl a fydd yn elwa o'u prosiect i nodi, cynllunio a darparu gweithgareddau sydd o bwys iddynt. Mae hyn yn mynd y tu hwnt i ymgynghori ac yn grymusounigolion trwy roi llais cyfartal iddynt yn y broses. Er na fyddwn yn disgwyl i chi fod wedi ymgysylltu'n helaeth â buddiolwyr yn ystod y cam Mynegi Diddordeb (gweler tudalen 17), byddwn yn disgwyl i chi amlinellu sut rydych chi'n cynnig gweithio gyda buddiolwyr a'ch partneriaid i gyd-ddylunio'ch syniad prosiect os cewch eich gwahodd i gwblhau cais llawn.

Dim ond prosiectau wedi'u cyd-ddylunio yr hoffem eu hariannu. Mae gan ymgeiswyr y rhyddid i ymdrin â'n blaenoriaethau ar gyfer y rhaglen hon ym mha bynnag ffordd y maen nhw'n ei weld mwyaf priodol trwy'r gweithgareddau cyd-gynhyrchu. Er hynny, mae ein hymchwil ac ymgynghoriad wedi amlygu meysydd cyffredin yr ydym yn eu disgwyl i gael eu trafod yn eich cais, ac oherwydd maint y prosiectau yr ydym yn disgwyl eu hariannu, rydym yn disgwyl y bydd nifer o feysydd ffocws o fewn eich cynigion.

Dyma'r blaenoriaethau rydym yn annog ymgeiswyr i'w hystyried:

## Taclo digartrefedd gwledig

Mae digartrefedd gwledig llawer yn llai gweladwy na digartrefedd mewn ardaloedd trefol Cymru, yn enwedig o ran cysgu allan. Mae tystiolaeth anecdotaidd sy'n awgrymu bod pobl yn llai tebygol o ymddangos yn ddigartref mewn ardaloedd gwledig. Oherwydd nad yw'r data a gasglwn am ddigartrefedd o reidrwydd yn gywir, mae'n golygu nad ydym yn gwybod pa mor eang yw digartrefedd yng nghefn gwlad Cymru. Byddem yn croesawu ceisiadau sy'n ystyried dulliau arloesol i adnabod digartrefedd mewn lleoliadau gwledig a'i daclo.

## Gwasanaeth arloesedd

Gyda'r gwasanaethau presennol yn canolbwyntio ar ymateb i ddigartrefedd yn hytrach na'i atal. Hoffem ariannu prosiectau sy'n rhoi'r pwyslais ar atal. Mae ein

hymchwil amlygu bod gormod o gyfleoedd i adnabod ac atal digartrefedd yn cael eu colli, fel ymadawyr carchar yn cael eu rhyddhau i'r strydoedd; cleifion sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty pan mae'n wyddys eu bod yn ddigartref; ac ymadawyr gofal sy'n gadael gofal awdurdod lleol heb gartref parhaol. Mae gwasanaethau'n aml yn rhy ddigyswllt i atal hyn rhag digwydd, a hoffem ddefnyddio ein cyllid i wella cydweithrediad rhwng sefydliadau sy'n cefnogi pobl ddigartref.

Mae Deddf Tai (Cymru) 2015 yn gorfodi awdurdodau lleol i gynnig cefnogaeth i bobl sydd 56 diwrnod i ffwrdd o fod yn ddigartref i atal hynny rhag digwydd. Byddem yn croesawu mentrau sy'n edrych y tu hwnt i hyn i gymryd agwedd hyd yn oed yn fwy ataliol.

## Cefnogaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

Yn aml, dim ond un o sawl amgylchiad unigol yw digartrefedd a all effeithio ar bobl, gyda'r naill yn aml yn cyfrannu at y llall. Gall yr amgylchiadau hyn gynnwys iechyd corfforol gwael; problemau iechyd meddwl; problemau alcohol a chyffuriau; profedigaeth; profiad o'r system ofal; profiad o'r system cyfiawnder troseddol; camdrin domestig; tlodi; anghydraddoldeb; diweithdra; neu ddiffyg sgiliau bywyd ymarferol.

Disgwyliwn i'r prosiectau yr ydym yn eu hariannu weithio gydag unigolion i roi'r gefnogaeth ehangach sydd ei hangen arnynt i feithrin eu lles ac atal digartrefedd rhag ailddigwydd cyhyd ag y mae ei hangen arnynt.

## Cefnogi tenantiaid a landlordiaid yn y sector rhentu preifat

Oherwydd bod angen mwy am dai cymdeithasol na'r rhai sydd ar gael, mae'r sector rhentu preifat wedi chwarae rhan sylweddol wrth gefnogi awdurdodau lleol i fodloni gofynion Deddf Tai (Cymru) 2015. Mae ein hymchwil yn dangos bod landlordiaid preifat weithiau'n amharod i gynnig tenantiaethau i'r rhai sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, neu'n profi digartrefedd yn barod, gan eu bod yn poeni am y potensial ar gyfer ôl-ddyledion rhent, a'r heriau lluosog y gallai rhai darpar denantiaid eu hwynebu. Rydym ni am i'r prosiectau rydym ni'n eu hariannu gynnig y gefnogaeth sydd ei hangen ar denantiaid y sector rhent preifat, tra hefyd yn cefnogi landlordiaid i ddeall y materion sy'n wynebu eu tenantiaid ac i gyfeirio tenantiaid at y gefnogaeth y gallai fod ei hangen arnyn nhw.

## Amgylcheddau a hysbyswyd gan drawma

Mae effaith hirdymor profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ar iechyd, lles a chyfleoedd bywyd bellach wedi'i ddogfennu'n dda. Mae llawer o bobl sy'n

ddigartref wedi bod yn agored iddynt. Mae rhai o'r ymddygiadau a'r arferion y mae nhw wedi'u dysgu o ganlyniad i hynny wedi arwain at droi allan, neu eu gwahardd o wasanaethau a ddyluniwyd i'w helpu. Mae dull cosbol yn cosbi defnyddwyr gwasanaeth am 'ymddygiad gwael' ymddangosiadol. Mae sicrhau bod gwasanaethau ar y rheng flaen yn cynnig dull a hysbyswyd gan drawma yn galluogi staff i ddeall pam bod ymddygiadau heriol yn codi, ac i weithio'n fwy adeiladol a chreadigol i ymdrin â nhw. Mae hyn yn helpu cynyddu gwytnwch, cymhelliant a boddhad swydd staff. Hoffem i brosiectau yr ydym yn eu hariannu fod yn seiliedig o amgylch dull a hysbyswyd gan drawma.

## Lleihau gwahaniaethu a rhagfarn

Mae pobl sy'n ddigartref yn profi rhagfarn. Gall hyn ddigwydd yn y gymuned ehangach a'r gwasanaethau y maen nhw'n troi atynt am gymorth. Rydym am i'r prosiectau sy'n derbyn arian wreiddio darpariaeth gwasanaethau priodol yn y gymuned mewn ffordd sy'n mynd i'r afael â'r rhagfarn a'r stigma hwn.

# Gwerthuso a Dysgu

Rydym am i bob prosiect yr ydym yn ei ariannu gomisiynu gwerthusiad prosiect y gallant ei ddefnyddio i:

- ymgorffori gwersi a ddysgwyd trwy gydol oes y prosiect
- llywio gwaith comisiynwyr gwasanaeth a llunwyr polisi eraill ym maes tai a digartrefedd
- ychwanegu at y sylfaen dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio i wneud digartrefedd yn brin, yn fyr dymor ac yn anghylchol.

Mae ein hymchwil ein hunain wedi dangos bod angen gwell tystiolaeth i helpu llywio'r broses o ddyrannu arian cyhoeddus i daclo digartrefedd er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf bosibl. Hoffem i'r prosiectau yr ydym yn eu hariannu ychwanegu at y dystiolaeth am yr hyn sy'n effeithio fwyaf ar atal digartrefedd trwy werthuso eu dull a rhannu'r dysgu ohono.

Dylai ymgeiswyr ystyried cynnwys sefydliad ymchwil neu unigolyn priodol fel rhan o'u partneriaeth i sicrhau bod gwerthuso a dysgu yn rhan annatod o'u syniad prosiect o'r cychwyn.

Drwy gydol y grant, byddwn ni'n dod â phrosiectau, y bobl sy'n elwa ohonynt a chynrychiolwyr sefydliadau perthnasol eraill ynghyd i rannu'r dysgu o brosiectau'n ehangach. Byddwn ni'n darparu canllawiau gwerthuso i gefnogi prosiectau a wahoddir i gyflwyno cais llawn er mwyn cynorthwyo gyda'u cynlluniau gwerthuso.

# Y broses ymgeisio

**Mae dau gam i'r broses ymgeisio Taclo Digartrefedd.**

## Cam un - ffurfio partneriaeth a chyflwyno ffurflen Mynegi Diddordeb

Os oes gennych ddiddordeb mewn gwneud cais i Taclo Digartrefedd, **cysylltwch â ni cyn gynted â phosibl**. Anfonwch e-bost at digartrefedd@cronfagymunedolylg.org.uk, ffoniwch **0300 123 0735** neu anfonwch neges destun a **18001** plws **0300 123 0735**.

Os gredwch gall eich mudiad gyfrannu at bartneriaeth, byddwn yn eich cysylltu â sefydliadau eraill yn eich ardal awdurdod lleol sydd â diddordeb mewn bod yn rhan o bartneriaeth i ddatblygu cynllun i daclo digartrefedd. Mae angen eich caniatâd arnom cyn i ni allu rhannu eich manylion cyswllt â sefydliadau eraill.

Yna byddwn yn gofyn i bartneriaethau gyflwyno ffurflen Mynegi Diddordeb. Byddwn yn gofyn iddynt gwblhau ffurflen sy'n amlinellu manylion eich partneriaeth arfaethedig, a'r heriau digartrefedd lleol, gwledig yr ydych am fynd i'r afael â nhw. Er na fyddwn yn disgwyl i'ch partneriaeth fod wedi ymgysylltu'n helaeth â buddiolwyr yn ystod y cam Mynegi Diddordeb, byddwn yn disgwyl iddynt amlinellu sut y byddantyn bwriadu gweithio gyda buddiolwyr a phartneriaid i gyd-ddylunio syniad prosiect.

Gall partneriaethau hefyd ddefnyddio'r ffurflen Mynegi Diddordeb i wneud cais am grant datblygu o hyd at £50,000 i'w helpu i ddatblygu cais llawn, os oes angen hynny arnynt. Os ydych yn meddwl bydd angen grant datblygu ar eich partneriaeth, siaradwch â ni amdano yn gyntaf. **Os gwnaeth eich partneriaeth dderbyn grant datblygu yn ystod rownd gyntaf y rhaglen Taclo Digartrefedd, bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth o newid arwyddocaol i ni i fod yn gymwys ar gyfer grant datblygu pellach**.

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth yn eich ffurflen Mynegi Diddordeb i benderfynu p'un ai y byddwn yn eich gwahodd i gam dau. Pan fyddwn yn asesu eich ffurflen Mynegi Diddordeb, byddwn yn defnyddio unrhyw wybodaeth leol sydd gennym am eich ardal. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall sut gall eich partneriaeth daclo digartrefedd a llenwi bylchau yn eich cymuned.

Rydym yn anelu i roi gwybod i chi am benderfyniad o fewn pedair wythnos o dderbyn eich ffurflen mynegi diddordeb. Os nad yw'n llwyddiannus, byddwn yn dweud wrthych pam.

## Cam dau - cyflwyno cynllun prosiect

Gwahoddir partneriaethau sy'n llwyddiannus yn y cam Mynegi Diddordeb i gam dau. Byddwn yn gofyn i chi ddatblygu cynllun prosiect cynhwysfawr ar gyfer eich prosiect arfaethedig a byddwn yn rhoi pum mis i chi wneud hyn. Os dyfernir grant datblygu i chi, bydd angen i chi wario'r cyfan o fewn y pum mis. Byddwn yn cynnig adborth o'n penderfyniad cam un Mynegi Diddordeb i'ch helpu chi i fynd i'r afael â meysydd yn eich ffurflen Mynegi Diddordeb, neu eu hegluro, yn ogystal â chynnig awgrymiadau ar gyfer cwblhau eich cynllun prosiect.

**Mae'r broses ymgeisio yn parhau i fod yn gystadleuol yng ngham dau a ni fyddwn yn ariannu pob cynnig prosiect a gyflwynir**. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a roddwch i ni yn eich cynllun prosiect i benderfynu a ydym yn dyfarnu grant llawn i chi. Efallai y byddwn yn cysylltu â chi yn ystod y broses asesu cam dau i egluro materion a gofyn am wybodaeth bellach.

Rydym yn anelu i roi gwybod i chi am ein penderfyniad terfynol ym mis Chwefror 2023. Os nad ydych chi'n llwyddiannus, byddwn yn dweud wrthych pam.

# Maint a hyd y grant

Mae gan Taclo Digartrefedd - Gwledig gyllideb o £3 miliwn.

## Grantiau datblygu

Mae grant datblygu o hyd at £50,000 ar gael i bob ffurflen Mynegi Diddordeb a gyflwynir. Dylai hwn gael ei wario o fewn pum mis o gael ei ddyfarnu, a chyn cyflwyno cais llawn. Mae grantiau datblygu ar gyfer costau refeniw yn unig.

Bydd efallai angen grantiau datblygu er mwyn darparu adnoddau ar gyfer y gwaith dwys o greu'r cysylltiadau rhwng y gwasanaethau statudol a thrydydd sector, gan gynnwys defnyddwyr gwasanaeth mewn dyluniad prosiectau a datblygu cynllun prosiectau.

## Grantiau prosiect llawn

Bydd grantiau prosiect yn para rhwng pump a saith mlynedd. Credwn y gallai grantiau mwy hirdymor hyrwyddo ail-ddyluniad gwasanaethau a bod yn fwy addas at anghenion cefnogaeth mwy hirdymor y bobl y mae'r prosiect yn bwriadu eu helpu. Rydym yn disgwyl i'r rhain fod yn grantiau refeniw yn bennaf ond gall prosiectau hefyd ofyn i ni gytuno ar rai costau cyfalaf.

Uchafswm maint y grant ar gyfer ceisiadau yw £1.5 miliwn.

O ystyried graddfa a chwmpas tebygol y prosiectau aml-bartner yr ydym yn gobeithio eu hariannu, mae'n annhebygol y byddwn yn gallu ariannu'r holl brosiectau sy'n ymgeisio am grant trwy'r rhaglen hon.

# Amserlen Taclo Digartrefedd

## Ffurflen Mynegi Diddordeb

### 26 Ebrill 2022

Ffurflen Mynegi Diddordeb ar gael ar-lein

Darllenwch y canllawiau hyn a chysylltwch â ni os ydych chi'n meddwl am ymgeisio.

Byddwn yn eich cysylltu â sefydliadau eraill cyfagos i gychwyn sgwrs.

### Ebrill 2022 – Mai 2022

Gweithiwch gyda'ch darpar bartneriaid i lenwi ffurflen Mynegi Diddordeb a gofyn am grant datblygu os ydych chi'n meddwl y bydd angen un arnoch chi.

### 31 Mai 2022

Cyflwynwch eich ffurflen Mynegi Diddordeb i ni erbyn 3yh. Danfonwch trwy e-bost i digartrefedd@cronfagymunedolylg.org.uk a byddwn yn cydnabod ein bod wedi'i dderbyn o fewn pum diwrnod gwaith.

### Gorffennaf 2022

Byddwn yn dweud wrthych a yw eich ffurflen Mynegi Diddordeb wedi bod yn llwyddiannus ac yn dyfarnu grantiau datblygu lle gofynnir am hynny.

Byddwn yn darparu adborth ar gyfer prosiectau aflwyddiannus.

## Cyflwyno cais llawn (os ydych chi'n cael eich gwahodd, yn dibynnu ar y ffurflen Mynegi Diddordeb)

### Gorffennaf 2022 – Tachwedd 2022

Os ydym yn eich gwahodd i gyflwyno cais llawn, gweithiwch gyda'ch partneriaid a defnyddwyr gwasanaeth i gyd-ddylunio eich cynllun prosiect.

### 24 Tachwedd 2022

Cyflwynwch eich cynllun prosiect i ni erbyn 12yh. Byddwn yn cydnabod ein bod wedi'i dderbyn o fewn pum diwrnod gwaith.

### Chwefror 2023

Byddwn yn dweud wrthych os yw eich cais wedi bod yn llwyddiannus.

# Sut i gychwyn arni

Sicrhewch eich bod wedi darllen y nodiadau arweiniad yn ofalus a chysylltwch â ni os oes gennych ddiddordeb. Gallwn eich rhoi mewn cysylltiad â sefydliadau eraill yn eich ardal sydd â diddordeb mewn bod yn rhan o bartneriaeth, dweud mwy wrthych am y wybodaeth sydd ei hangen arnoch chi a rhoi cyngor a chefnogaeth ychwanegol i chi cyn i chi gyflwyno'ch ffurflen Mynegi Diddordeb.

**Yn unol â gofynion GDPR, bydd angen eich caniatâd arnom i rannu'ch manylion â sefydliadau eraill**. I ddarganfod pa ddata personol rydym yn ei gasglu a sut rydym yn defnyddio'r data hwn, ewch i tnlcommunityfund.org.uk/welsh/about/customer-service/data-protection

Pan fyddwch yn cysylltu â ni, dyma'r mathau o gwestiynau y byddwn yn eu gofyn. Bydd yn ddefnyddiol i chi gael cymaint o wybodaeth wrth law â phosib. Os ydych yn gofyn i ni am gyngor ar eich syniad neu ddiddordeb trwy e-bost, rhowch gymaint o wybodaeth â phosib yn eich e-bost er mwyn i ni roi adborth priodol.

- Pa fath o sefydliad ydych chi? Trydydd sector, menter gymdeithasol, corff statudol ayb.
- Beth mae'ch sefydliad yn ei wneud, a pha rôl sydd ganddo i gefnogi pobl sy'n ddigartref?
- Beth allai eich sefydliad ddod ag ef i brosiect digartrefedd a ddarperir trwy bartneriaeth?
- Pa syniadau sydd gennych ar gyfer darparu'r prosiect?

CRONFA GYMUNEDOL
COMMUNITY FUND

## Cysylltwch â ni

digartrefedd@cronfagymunedolylg.org.uk

**0300 123 0735** neu anfon neges destun at **18001** plws **0300 123 0735**